Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2014-15

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent

**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2015

**Cyfeirnod y ddogfen: 603A2015**

# Statws yr adroddiad

Mae’r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi at ddefnydd mewnol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn Swyddog.Gwybodaeth@archwilio.cymru

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys John Herniman, Matthew Coe, and Andy Bruce a Dave Burridge.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-15 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu | 5 |
| Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau | 7 |
| Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2015 | 10 |
| Atodiadau | |
| Meini prawf ar gyfer asesu'r trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau | 12 |
| Risgiau archwilio sylweddol | 13 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i wneud mewn perthynas â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Gwent yn ystod 2015.

**2.** Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r ddwy gorfforaeth undyn i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran eu defnydd o adnoddau.

**3.** Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Mae fy nhîm wedi trafod yr adroddiadau hyn a chytuno arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynwyd i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a'r Cyd-bwyllgor Archwilio. Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2015 ac mae Atodiad 2 yn dangos sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2014-15 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu

**4.** Mae'r datganiadau ariannol yn ffordd hanfodol i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent (y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Gwent (y Prif Gwnstabl) roi cyfrif am y modd y maent yn gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddynt a'u perfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Eu cyfrifoldeb hwy yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir; a
- pharatoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

**5.** Mae'n ofynnol i mi archwilio'r datganiadau ariannol a chyhoeddi adroddiadau archwilio sy'n cynnwys barn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn cyflwyno darlun 'cywir a theg' o sefyllfa'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu. Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi fy marn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 a rheoliadau perthnasol.

**6.** Ar 29 Medi 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Chronfa Bensiwn yr Heddlu.

**7.** Daeth yr holl ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 i law ar 30 Mehefin 2015, yn unol â'r dyddiad cau y cytunwyd arno. Fodd bynnag, roedd y cyfrifon drafft hyn yn anghyflawn gan fod angen gwybodaeth bellach am incwm a gwariant cydweithredu gan Heddlu De Cymru, a ddarparwyd wedi hynny ac a gofnodwyd yn y cyfrifon.

**8.** Yn fy marn i, roedd y wybodaeth a'r papurau gwaith a roddwyd i ategu'r cyfrifon yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd eu deall. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

**9.** Ni chododd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad. Cawsom wybodaeth mewn modd amserol a defnyddiol ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Yn 2013-14 nodwyd gennym fod nifer sylweddol o ddiwygiadau nad oeddent yn rhai perthnasol a diwygiadau naratif i'r cyfrifon drafft. Er bod llai o ddiwygiadau eleni, byddai adolygiad rheoli manylach o'r cyfrifon drafft yn ystod y broses o gau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn yn helpu i leihau'r rhain ymhellach.

**10.** Un maes a oedd yn berthnasol ac yn arbennig o gymhleth yr oedd angen rhoi sylw arbennig iddo oedd rhwymedigaeth o ran Cronfa Bensiwn yr Heddlu a oedd yn deillio o ddiweddariadau i'r dull o gyfrifo cyfandaliadau hanesyddol i bensiynwyr rhwng 2001 a 2006. Deilliodd hyn o newidiadau i ffactorau cymudo hanesyddol a oedd yn gymwys i bob heddlu. Roedd y datganiadau a gyflwynwyd i'w harchwilio yn cynnwys darpariaeth

ar gyfer yr eitem hon, a hynny'n briodol, ac fe'i diweddarwyd ar ôl i wybodaeth bellach gael ei darparu gan adran actiwari'r llywodraeth ym mis Gorffennaf 2015. Daethom i'r casgliad bod y ddarpariaeth wedi'i diweddaru a gynhwyswyd yn y cyfrifon yn amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaethau posibl.

**11.** Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiadau i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar ganfyddiadau'r archwiliad o'r datganiadau ariannol. Cyflwynwyd yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol i'r Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, ac i'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn eu cyfarfod ar 16 Medi 2015. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl

| Gofyniad adrodd | Canfyddiadau'r archwiliad |
|---|---|
| Addasiadau i adroddiad yr archwilydd | Nid oedd angen unrhyw addasiadau, rhoddwyd barn ddiamod. |
| Camddatganiadau nas addaswyd | Nodwyd un camddatganiad nas addaswyd. Ni ddangoswyd effaith lawn cyfran y buddiannau o weithrediadau cydweithredol yn y cyfrifon. Rydym yn fodlon nad oedd yr effaith net o £682,000 yn berthnasol er mwyn deall y cyfrifon, ond argymhellwyd y dylid dod o hyd i'r wybodaeth hon yn gynharach yn y dyfodol ac y dylai gael ei hadlewyrchu'n llawn yng nghyfrifon drafft 2015-16 cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'w harchwilio. |
| Safbwyntiau ynglŷn ag agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol yr endid | Ni nodwyd unrhyw faterion. |
| Materion y gohebwyd â'r rheolwyr yn eu cylch | 2014-15 oedd y flwyddyn gyntaf y bu'n ofynnol i'r cyfrifon ddatgelu cymhareb cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Prif Gwnstabl i gydnabyddiaeth ganolrifol swyddogion a staff. Nodwyd gennym fod angen mireinio'r dull o gyfrifo'r cymarebau ar gyfer 2015-16. Ni nodwyd unrhyw faterion pwysig eraill. |
| Materion sy'n arwyddocaol o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol | Ni nodwyd unrhyw faterion. |
| Gwendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol | Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol. |
| Materion y mae'n ofynnol iddynt, o dan safonau archwilio eraill, gael eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Ni nodwyd unrhyw faterion. |

# Rwy'n fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau

**12.** Roedd fy ystyriaeth o drefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon. Rwyf hefyd wedi dibynnu ar ganlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fel y'u nodir yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiadau cysylltiedig; canlyniadau gwaith a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol; roedd canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac unrhyw waith arall, gan gynnwys gwaith gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau.

**13.** At ddibenion fy ngwaith, gwerthusais systemau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau. Nodir y camau manwl a gymerwyd yn Atodiad 1. Ar gyfer pob cwestiwn, rwyf yn ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod ar waith ac arwyddocâd y bylchau hynny.

**14.** Mae'r systemau rheolaeth a llywodraethu wedi parhau i ddatblygu yn 2014-15. Mae Bwrdd Gweithredol Strategol y Comisiynydd wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ystyried perfformiad yr Heddlu. Mae'r Llawlyfr ar Lywodraethu Corfforaethol ac Egwyddorion y Gydberthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi cyfarfod bum gwaith yn ystod 2014-15, ac wedi ystyried canlyniadau gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol a'n gwaith ni. Bûm innau a'm tîm hefyd yn cefnogi ac yn gweithio gyda'r Pwyllgor hwn wrth iddo gynnal hunanasesiad o'i berfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi gweithio'n dda, gan roi sicrwydd ac argymhellion priodol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Am y tro cyntaf, mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi paratoi adroddiad blynyddol ar ei waith, sy'n cynnwys asesiad o'i effeithiolrwydd yn erbyn canllawiau CIPFA a sut mae'n cyfrannu at effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol cyffredinol.

**15.** Yng Nghynllun Archwilio 2015 i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, nodwyd y byddai ein rhaglen waith ar berfformiad yn canolbwyntio ar adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau cydweithredu a phartneriaeth y Comisiynydd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar weithgareddau Diogelwch Cymunedol. Mae ein hadolygiad o ddiogelwch cymunedol ar lefel yr heddlu yn rhan o astudiaeth genedlaethol, sy'n cael ei chynnal ar lefel Cymru gyfan (Llywodraeth Cymru), lefel ranbarthol (ardal Comisiynydd) a lefel leol (awdurdod lleol/Partneriaeth Diogelwch Cymunedol). Er ein bod wedi cwblhau ein gwaith maes lleol yng Ngwent, caiff ein canfyddiadau eu llywio hefyd gan ffrydiau gwaith eraill yn yr astudiaeth genedlaethol nas cwblhawyd eto. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys dadansoddi data, arolygon o'r cyhoedd ac aelodau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a maes gwaith o fewn awdurdodau lleol, partneriaethau a Llywodraeth

Cymru. Drwy ystyried y gwaith ychwanegol hwn ychwanegir gwerth sylweddol at ein gwaith lleol drwy ddarparu tystiolaeth a safbwyntiau ychwanegol o amrywiaeth eang o randdeiliaid.

**16.** Pan gaiff y gwaith ychwanegol hwn ei gwblhau ar ddechrau 2016, byddwn yn llunio adroddiad i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a fydd yn nodi ein canfyddiadau lleol o ran gwaith partneriaethau diogelwch cymunedol, gan ystyried y canfyddiadau ehangach o dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth genedlaethol. Caiff ein hadroddiad cenedlaethol ei gyhoeddi yn ystod 2016 a bydd yn cynnwys casgliadau ar waith pob un o'r partneriaid sydd ynghlwm wrth reoli diogelwch cymunedol yng Nghymru.

**17.** Ar sail Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac, o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd, fel y'i disgrifir uchod fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2014-15, a'r holl wybodaeth arall yr ystyriais ei bod yn berthnasol, rwy'n fodlon ynghylch bodolaeth y trefniadau a oedd ar waith gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau am sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau yn briodol. Ar sail y gwaith a wnaed, ac yn gyfyngedig iddo, rwyf wedi codi materion amrywiol o ran trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ac wedi gwneud argymhellion i'w gwella.

## Llwyddodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i wario yn unol â'u cyllidebau refeniw ar gyfer 2014-15, ac maent yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau ariannol sylweddol

**18.** Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi parhau i weithredu o fewn eu cyllideb refeniw yn 2014-15. Yn erbyn gofyniad cyllideb refeniw o £119.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn, ac ar ôl ystyried cyllid a gwariant ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â chynhadledd NATO ym mis Medi 2014, cofnododd y Comisiynydd danwariant o £4.4 miliwn. Trosglwyddwyd y swm hwn i'r gronfa wrth gefn ar gyfer newidiadau gweithredol yn y dyfodol. Gostyngodd Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn Cronfa'r Heddlu £6.8 miliwn i £4.0 miliwn ar 31 Mawrth 2015 ar ôl i gronfeydd wrth gefn gael eu clustnodi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, gan gynnwys pencadlys newydd i Heddlu Gwent.

**19.** Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i gael adroddiadau rheolaidd gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Cynorthwyol – Adnoddau ar wariant a'r sefyllfa o ran y gyllideb, yn y drefn honno. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad drwy gydol y flwyddyn. Y sefyllfa gofnodedig ym mis Awst 2015 oedd bod y Comisiynydd ar y trywydd cywir i gyflawni'r cynlluniau effeithlonrwydd gwerth £6.0 miliwn a oedd eu hangen yn ystod 2015-16.

**20.** Fodd bynnag, mae pwysau cynyddol i nodi arbedion a fydd yn gwneud iawn am y diffyg ariannol cronnus o £50.5 miliwn hyd at 31 Mawrth 2019 a nodwyd yn yr Adolygiadau Cynhwysfawr o Wariant yn 2010 a 2013. Mae cyfanswm o £28.3 miliwn o arbedion/gostyngiadau mewn costau wedi'u sicrhau ar 31 Mawrth 2013 ac mae arbedion pellach o £3.6 miliwn wedi'u nodi o dan Gam 7 o Raglen *Staying Ahead* i'w gyflawni yn 2014-15. Mae hyn yn golygu bod angen arbedion ychwanegol o £18.6 miliwn er mwyn cau'r bwlch ariannu cyffredinol. Mae Cam 8 o Raglen *Staying Ahead*

wedi dechrau ac mae gwaith cwmpasu cychwynnol yn nodi arbedion posibl o £16.3 miliwn, gan adael diffyg net o £2.3 miliwn yn 2018/19.

## Mae Heddlu Gwent wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu cynlluniau i reoli'r pwysau ariannol yn y tymor canolig a'r tymor hwy.

**21.** Roedd ein rhaglen waith wedi'i chysoni ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn cynnwys casglu tystiolaeth ar y cyd ynghylch a yw rhaglenni arbedion 'Staying Ahead' yn cyflawni newidiadau cadarnhaol y gellir eu mesur tuag at wasanaeth heddlu cynaliadwy. Yn sgil ei adroddiad cychwynnol ar Policing in Austerity ym mis Gorffennaf 2014, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi adolygiad arall ym mis Mawrth 2015 er mwyn mesur cynnydd Heddlu Gwent[1] a daeth i'r casgliad:

**'Gwent Police has made good progress since the original inspection in May 2014. The Force can now demonstrate how it will have a secure financial position for the short and long term and has developed a new operating model to match resources better to demand and deliver effective policing services.'**

**22.** Daeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i'r casgliad hwn oherwydd:

- Ar adeg yr ailymweliad ym mis Hydref 2014, canfu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi fod cynlluniau cyllideb Heddlu Gwent yn cynnwys mesurau llywodraethu ariannol cliriach drwy fwrdd rhaglen 'Staying Ahead 8' a Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad y Comisiynydd. Mae hyn, ynghyd â'r camau y mae'r Heddlu yn eu cymryd i fynd i'r afael â boddhad dioddefwyr a sicrhau adnoddau sy'n ateb y galw, yn golygu bod Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn fwy hyderus bod Heddlu Gwent yn cymryd y camau angenrheidiol i ateb yr heriau ariannol o'i flaen, tra'n ceisio gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau i'r cyhoedd.
- Yn ystod gwanwyn 2014, cynhaliodd Heddlu Gwent asesiad cychwynnol o'r galw ac ar adeg yr ailymweliad hysbyswyd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi y byddai'r broses hon yn cael ei chynnal eto ym mis Tachwedd 2014 er mwyn datblygu ei ddealltwriaeth ymhellach.
- Yn unol â gwell dealltwriaeth o'r galw, mae Heddlu Gwent wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu model gweithredu, gyda'r nod o ddiogelu'r rheng flaen, gwella boddhad dioddefwyr a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'r model yn fforddiadwy yn y tymor canolig ac mae modd ei addasu yn y dyfodol. Ar adeg yr ailymweliad, nid oedd Heddlu Gwent wedi symud eto o ddatblygu ei gynlluniau i weithredu'r newid sylweddol yr oedd ei angen erbyn diwedd mis Ebrill 2015.
- Erys problemau o hyd o ran boddhad dioddefwyr (yn enwedig o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr ac ymateb Heddlu Gwent i berfformiad troseddau a nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol). Mae'r materion hyn yn ymwneud â chynyddu categorïau troseddau allweddol troseddu cyffredinol; troseddu sy'n gysylltiedig â dioddefwyr a thrais corfforol. Fodd bynnag,

[1] "Responding to austerity – progress report Gwent Police" Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi Mawrth 2015

amlinellodd Heddlu Gwent gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy gyflwyno 'Connect Gwent' (gwasanaeth i ddioddefwyr); rhoi menter CARE Gwent ar waith er mwyn gwella profiad dioddefwyr pan fyddant yn cysylltu; adolygiad o ystafell reoli'r Heddlu er mwyn ymdrin â materion yn ystod y cyswllt cyntaf; a lleoli goruchwylwyr lleol yn yr ystafell reoli er mwyn ymdrin â chwynion yn ystod y cyswllt cyntaf.

**23.** At hynny, daeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi i'r casgliad ei bod yn dal i bryderu bod gan yr Heddlu gryn dipyn o waith addasu i'w gyflawni mewn cyfnod byr o amser, tra'n cynnal perfformiad mewn amgylchedd sy'n newid. Fodd bynnag, roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn ystyried bod y cynnydd cynnar gan Heddlu Gwent yn galonogol a bod hynny wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd ei fod yn gallu cyflawni'r newidiadau.

**24.** At hynny, yn 2014-15 cyhoeddodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ei hasesiad cyntaf o effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) ar gyfer pob heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan grynhoi canfyddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi o'r arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Ei chasgliadau ynglŷn â Heddlu Gwent oedd bod y dystiolaeth a oedd ar gael yn dangos y canlynol:

- O ran effeithiolrwydd, yn gyffredinol, mae angen i'r Heddlu wella o ran gostwng troseddu ac atal troseddau, mae angen iddo wella o ran y ffordd y mae'n ymchwilio i droseddau ac mae angen iddo wella o ran mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Codwyd rhai pryderon penodol ynglŷn â'r ffordd y mae'n ymdrin â cham-drin domestig.
- Mae angen gwella effeithlonrwydd y ffordd y mae'r Heddlu yn cyflawni ei gyfrifoldebau. Fodd bynnag, bu gwelliant sylweddol yn y ffordd y mae'r Heddlu yn gweithredu ers yr arolygiad cychwynnol.
- Mae'r Heddlu yn cymryd camau i sicrhau tegwch a chyfreithlondeb mewn nifer gyfyngedig o'r arferion a archwiliwyd eleni.

**25.** Mae rhagor o fanylion ynglŷn â methodoleg PEEL a chasgliadau manwl yr asesiad PEEL sy'n ymwneud â Heddlu Gwent ar gael ar wefan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic/.

**26.** Mae adolygiadau a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth yn ategu fy nghasgliadau am drefniadau i sicrhau gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol. Rydym yn parhau i herio a chynorthwyo uwch swyddogion a staff drwy ein trafodaethau parhaus ar gynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn ac yn y dyfodol.

# Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2015

**27.** Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2015.

**28.** Rwyf hefyd wedi cwblhau'r archwiliad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, a chyflwynais y ffurflen wedi'i harchwilio wedyn i dîm archwilio canolog Swyddfa

Archwilio Cymru yn unol â’r terfyn amser gofynnol, sef 2 Hydref 2015. Roedd y ffurflen wedi’i llunio’n briodol ar y cyfan ac nid oedd unrhyw faterion o bwys i’w nodi.

**29.** Amcangyfrifais yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol mai £85,660 fyddai’r ffi archwilio ar gyfer 2014-15. Mae’r ffi archwilio wirioneddol yn unol â’m hamcangyfrif gwreiddiol.

# Atodiad 1

## Meini prawf ar gyfer asesu'r trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

| Trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol | Cwestiynau ar drefniadau |
|---|---|
| **Pennu amcanion, penderfynu ar bolisïau a gwneud penderfyniadau** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol? |
| **Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu modd o gyfathrebu â'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried? |
| **Monitro ac adolygu perfformiad** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro perfformiad a chraffu arno, er mwyn nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, i weithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl ? |
| **Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol? |
| **Risgiau gweithredol ac ariannol** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys? |
| **Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni yn ei ddefnydd o adnoddau? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau unioni lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl? |
| **Safonau ymddygiad priodol ac ati** | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol ar gyfer gweithredu? |
| | A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes? |

# Atodiad 2

## Risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2015 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2015. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Ni chododd unrhyw faterion o ganlyniad i adolygu a phrofi cofnodion. Ni chododd unrhyw faterion eraill mewn perthynas ag amcangyfrifon arwyddocaol eraill yn y cyfrifon. |
| Mae tua £20 miliwn o incwm a gwariant ychwanegol yn ddyledus y 2014/15 sy'n gysylltiedig â phlismona cynhadledd NATO. Bydd angen rhoi cyfrif am hyn a'i ddatgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol.<br>Yn yr un modd, bydd angen i unrhyw newidiadau ar ôl y trosglwyddiad Cam 2 rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gael eu hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn mynd ati'n benodol i brofi'r gwariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â NATO ac yn cytuno â rheolwyr ar gyfrifyddu a datgeliadau cywir ar gyfer y digwyddiad hwn a'r trosglwyddiad Cam 2. | Mae Nodyn 5 i'r datganiadau ariannol archwiliedig yn cynnwys datgeliadau ychwanegol sy'n esbonio effaith y gwariant ychwanegol o £23.8 miliwn a'r cyllid ychwanegol o £23.0 miliwn ar gyfer cynhadledd NATO ar gyfrifon Gwent. Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion. |
| Mae newidiadau i'r diffiniad o weithrediadau a gyd-reolir yn y Cod Ymarfer Archwilio a'r rheoliadau archwilio yn golygu y gall fod angen cynnwys gweithgareddau ychwanegol mewn datgeliadau sy'n ymwneud â chydweithredu erbyn hyn. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar bob corff llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. | Byddaf yn gweithio gyda chyrff yr heddlu yng Nghymru er mwyn cytuno ar gyfres gyffredin o egwyddorion a dull gweithredu cyson o gydnabod a datgelu o fewn y datganiadau ariannol. | Gwnaed addasiadau i ddatganiadau ariannol 2014-15 er mwyn adlewyrchu cyfran y budd sy'n deillio o weithrediadau cydweithredol, ond mae angen gwneud rhagor o waith i fireinio'r cyfrifiadau a darparu'r wybodaeth hon yn gynharach yn y broses o baratoi'r cyfrifon drafft. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Cafwyd eglurhad ynglŷn â nifer o faterion sy'n ymwneud â phensiynau, gan gynnwys trin didyniadau o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o bensiwn salwch, a'r oedran pensiwn a ddiogelir. | Bydd fy nhîm archwilio yn cysylltu â rheolwyr ynglŷn â'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o ran y materion hyn ac yn sicrhau eu bod yn cael eu datgelu'n briodol ac y rhoddir cyfrif amdanynt yn y datganiadau ariannol. | Mae datganiadau ariannol 2014-15 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer amcangyfrif rhesymol o daliadau cyfandaliad ôl-ddyddiedig. Mae datgeliadau priodol wedi cael eu gwneud yn y datganiadau ariannol. |
| Yn sgil adolygiad mewnol o'r trefniadau, mae'r Comisiynydd wedi newid cyfrifon banc yn ystod y flwyddyn. | Byddwn yn cael awdurdodiadau priodol gan reolwyr i gael cadarnhad trydydd parti gan y bancwyr newydd. | Cafwyd awdurdodiadau priodol a chadarnhad trydydd parti. |
| Mae angen i'r datganiadau ariannol gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff:<br>• sicrhau bod pob set o gyfrifon wedi'i pharatoi i adlewyrchu'n briodol sylwedd gwaith rheoli gweithgareddau o ddydd i ddydd yn ogystal â'r sefyllfa gyfreithiol; a<br>• deall gofynion IFRS yn llawn, gan sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gyfredol am y gofynion newydd a'u bod yn nodi risgiau a materion ac yn ymdrin â hwy'n briodol. | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl a'u staff er mwyn cytuno ar y ffordd fwyaf priodol o gyflwyno'r ddwy set o ddatganiadau ariannol a'r datganiadau grŵp.<br>Byddwn hefyd yn cytuno ar welliannau i'r fethodoleg a'r papurau gwaith sy'n ategu'r datganiadau ariannol lle y bo angen. | Gwnaed nifer o newidiadau i'r nodiadau i'r cyfrifon o ganlyniad i'n gwaith ac mae datgeliadau ynglŷn â chydnabyddiaeth bellach yn unol â'r gofynion cyfrifyddu. |
| Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhoi sawl grant newydd i'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn i'w dosbarthu i nifer o gyrff trydydd parti. | Byddwn yn profi'r cyllid ychwanegol hwn yn ôl dogfennau gwreiddiol, yn cadarnhau eu bod wedi cael eu dosbarthu'n briodol ac yn sicrhau y cyfrifir amdanynt yn gywir yn y cyfrifon. | Ni nodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'n profion ar incwm/cyllid y Comisiynydd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru